

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 2il 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eifion Davies, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Dewi Pritchard, Meilir Jones a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Nodwyd y buddiant gyda'r ohebiaeth a cheisiadau ariannol perthnasol isod.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

- i) Llwybr troed Llanfor a'r llwybr troed o flaen loches bws Cefnddwysarn - roedd y gweithlu wedi bod yn clirio'r gwastraff gwyrdd ar lwybr Llanfor a'r mwsog ar y llwybr yng Nghenddwysarn ond wedi gadael y llanast yno. Gofynnwyd i'r clerch ail gysylltu â'r swyddog i'w hysbysu o hyn.
- ii) Llwybr troed newydd o bentref Frongoch i Ganolfan Tryweryn - derbyniwyd e-bost gan Adran Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd yn ein cynghori y byddant yn cynnal ymgyngoriad yn fuan i adnabod pa gysylltiadau cerdded a beicio byddai'n bosib eu cyflwyno yng Ngwynedd a fydd yn hybu teithio llesol yn y sir. Fel rhan o'r broses byddai cyfle i ddweud pa lwybrau cerdded a beicio y byddai pobl yn hoffi gweld o fewn eu cymuned. Yn dilyn yr ymgyngoriad byddai peiriannydd yn cynnal arolwg o'r safle i adnabod pa mor ymarferol byddai gyflwyno'r cynllun penodol.
- iii) Trwsio rhannau o'r wal ar y A494 yn Ty Nant, Cefnddwysarn – cafwyd cadarnhad fod y gwaith ar y rhaglen i'w wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- iv) Tll yn y ffordd rhwng mynedfa fferm Cynlas a phont Cefnddwysarn - roedd y tll wedi cael ei lenwi ac roedd y safle wedi cael ei gyflwyno i'r roi ar y rhestr cynlluniau ail-wynebu.
- v) Trwsio'r wal o flaen y stad dai Tan y Foel, Llanfor - wedi i'r clerch ailgysylltu ag Adra unwaith eto roedd y gweithlu wedi bod allan i drwsio'r wal.
- vi) Dŵr yn llifo ar draws yr A494, cyn Braich Ddu - yn dilyn cwynion pellach fod y dŵr yn parhau i lifo ar draws y ffordd roedd y clerch wedi cysylltu eto â'r Asiantaeth Cefnffyrdd. Cafwyd cadarnhad fod gwaith eisoes wedi ei wneud i atal y dŵr ond roedd yn ymddangos fod peiriannau'r contractwr torri coed yn amharu ar effeithiolrwydd y gwaith. Roedd y gwaith torri coed bron a dod i ben a chafwyd addewid y byddant yn sicrhau bydd unrhyw waith adfer yn cael ei wneud.

b) Biniâu halen a graeanu.

Cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd gyda swyddogion yr Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn y cyfarfod ym mis Chwefror, gweler yr adroddiad ar wahan. Cytunwyd i gadw golwg ar y sefyllfa a thrafod y mater ymhellach unwaith fydd Cyngor Gwynedd wedi gwneud eu hasesiad risg a'u cynllun i wella'r gwasanaeth.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Llythyr yn ein cynghori na fydd y Bartneriaeth yn gofyn am eu cyfraniad ariannol eleni o dan yr amgylchiadau.

b) Cyngor Gwynedd.

i) Tir ger lloches bws Cefnddwysarn (Eifion Davies yn datgan buddiant ac yn gadael y cyfarfod dros dro) - derbyniwyd ymholiad gan Adran Stadau Cyngor Gwynedd ynglŷn â pherchnogaeth y tir o gwmpas y lloches bws. Eglurodd y Clerch ei bod wedi edrych ar ddogfennau'r Cyngor Cymuned ac nid oedd unrhyw gofnod am

berchnogaeth y tir na unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r trefniadau gwreiddiol pan godwyd y lloches bws. Roedd cof fod y tir yn gysylltiedig â'r Capel gerllaw. Cytunwyd i adrodd hyn yn nol i swyddog Cyngor Gwynedd.

ii) Chopi o'r hysbyseb ynglŷn â'r bwriad i gau'r A494 yng Nghlanrafon rhwng y 18/2/21 a'r 26/2/21 er mwyn ail wynebu'r ffordd.

c) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft, CCA 3: Cynllunio a'r Iaith Cymraeg.

ch) Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

i) Gwahoddiad i fod yn rhan o'r Panel sy'n Adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref.

ii) Adroddiad Blynyddol 2021/22. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau i'r argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

d) Archwilio Cymru.

i) Derbyniwyd gwybodaeth am y drefn archwilio newydd a fyddai'n rhedeg mewn cylch o 3 mlynedd. Roedd yn nodi pa flwyddyn bydd cynghorau'n derbyn yr archwiliad sy'n seiliedig ar drafodion, a'r ddwy flynedd y bydd y gweithdrefnau archwilio sylfaenol yn cael eu defnyddio.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C20/1055/04/LL - Trosi allandai i ffurfio dwy uned wyliau hunangynhaliol. Y Beudai Bwlch Garneddog, Bethel. Cytunwyd i ymholi pam fod yr ymgeisydd wedi nodi ar y ffurflen nad oedd wedi ymgynghori gyda'u cymdogion gan fod annedd yn agos iawn i'r datblygiad.

C20/1050/04/LL - Newid defnydd tir amaethyddol i greu safle glampio ar gyfer 2 pod. Fferm Pen Y Bryn, Sarnau. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

b) Derbyniadau.

Derbyniwyd cyfraniad tuag at y tanysgrifiad Zoom gan Gyngor Cymuned Llanycil.

c) Taliadau

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth)

2) CTHEM (TWE)

3) Ciltalgarth (torri glaswellt ym mynwentydd Frongoch, Llanfor a Llandderfel)

4) Un Llais Cymru (tal aelodaeth) - cymeradwywyd i'w dalu pan fyddai'r clerc yn derbyn yr anfoneb.

ch) Ceisiadau Ariannol.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod eleni wedi bod yn flwyddyn heriol iawn i fudiadau ac elusennau gan nad oedd modd iddynt gynnal eu gweithgareddau arferol i gasglu arian i'w cynnal. Penderfynwyd defnyddio £500 o'r arian wrth gefn i gynyddu'r gyllideb cyfraniadau ariannol.

Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-

1) Neuadd Mynach - £450 (Bethan Thomas yn datgan buddiant)

2) Neuadd Sarnau - £450

3) Neuadd Llandderfel - £450

- 4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
- 5) Ysgol Ffridd y Llyn - £250
- 6) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn - £100.00
- 7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100
- 8) Cylch Meithrin Maesywaen - £100
- 9) CFFI Meirionnydd - £200
- 10) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100
- 11) Ambiwylans Awyr Cymru -£100

Cytunwyd i amnewid sic 2019-20 Ysgol Godre'r Berwyn (cyfraniad ariannol o £100) a sic mis Mai Tirionfa (cyfraniad ariannol o £100) am rhai newydd gan eu bod wedi mynd allan o ddyddiad.

Oherwydd amgylchiadau Covid yn rhwystro gweithgareddau cymunedol, derbyniwyd y cynnig ein bod yn gohirio dyrannu'r gyllideb yn llwyr tan y flwyddyn ariannol nesaf ac ystyried unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ôl y cyfarfod gan obeithio y bydd cyfle i ail afael mewn gweithgarwch cymunedol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22. Cytunwyd fod arian digonol tu cefn ar gyfer cyfiri'r fynwent ac unrhyw wariant annisgwyl a all'i'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf.

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

- i) Cais am ganllaw newydd ar un o lwybrau troed ar stad Tan y Foel, Llanfor.
- ii) Derbyniwyd cwynion am y sbwriel oedd yn cael ei luchio allan o ddrysau'r lori ail gylchu wrth fynd o un annedd i'r llall ar hyd yr A494, yr A4212 o'r Bala i Frongoch ac ar y ffordd o Gefnddwysarn drosodd am Llandderfel. Dros y cyfnod clo bu ambell i griw yn casglu sbwriel gerllaw'r pentref Llanfor ac i lawr o Frongoch i'r Bala a bu iddynt lenwi nifer fawr o fagiau gyda'r sbwriel yma.
- iii) Dwr yn sefyll ar y ffordd ger giât gadlas Penisa'r Llan, pentref Llanfor.
- iv) Cwynion fod dŵr yn hel ar y A4212 a bod angen clirio'r culfets.
- v) Rhan o wal pont Llandderfel ar y B4401 wedi disgyn.
- vi) Cwynion am gyflwr y ffordd gefn o'r Bala i Gwmtirmynach heibio Rhiwlas.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 4ydd am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.